



Prifysgol Abertawe
Swansea University

Beth os?
















Darllenwch y crynodeb hwn o blot y stori.

1. Mae Ceri yn y gwaith. Mae hi'n teimlo'n ddiflas.
2. Rydyn ni'n dysgu bod Ceri wedi bod yn gweithio fel clerc gweinyddol am bum mlynedd. Yn anffodus, dydy hi ddim yn gallu ffeindio swydd well.
3. Roedd Ceri yn cael paned a chinio ar yr un amser bob dydd. Mae hyn yn pwysleisio bod ei bywyd yn ddiflas.
4. Neithiwr, symudodd Ceri i fflat newydd. Roedd rhaid iddi hi symud achos bod ei pherthynas hi a'i chariad wedi dod i ben. Roedd hi a Gareth wedi bod gyda'i gilydd am bum mlynedd. Ond dysgodd Ceri bod Gareth yn gweld merch arall. Felly chwiliodd Ceri am fflat newydd. "O'r diwedd roedd hi wedi cael y goriadau ac wedi cael gwared ar Gareth am byth – gobeithio!"
5. Yn y swyddfa, mae Ceri yn derbyn neges gan ddyn o'r enw Marc. Mewn camgymeriad, mae Ceri wedi anfon neges at ryw Marc sy'n byw dramor ac mae e wedi anfon ateb. Mae Marc yn dod o Gymru yn wreiddiol ac mae e'n siarad Cymraeg. Mae Ceri yn teimlo'n agos at Marc o'r dechrau achos mae e'n defnyddio 'ti' gyda hi. Mae e'n gyfeillgar. Felly mae Ceri yn anfon ebost arall at Marc.
6. Mae Ceri'n mynd nôl at y gwaith wedyn ac mae popeth yn ddiflas eto. Mae hi'n bwrw glaw ac mae Ceri'n meddwl sut mae hi'n casáu yr amser yma o'r flwyddyn. Mae rhai o'r bobl yn y gwaith yn ddiflas hefyd. Mae Maldwyn – ei bos hi yn y gwaith - yn *creep*. Mae e'n ffansio Ceri ond dydy hi ddim yn hoffi Maldwyn o gwbl. Mae e'n rhy hen. Mae e'n dew. Mae gyda fe wallt seimllyd.
7. Yna, mae Ceri yn cael neges arall gan Marc. Mae Marc yn dod o'r gogledd, fel Ceri. Mae e'n gyfarwydd â Llandyfaelog, ble mae Ceri yn byw. Mae Marc yn dod o Henryd ac mae Ceri yn adnabod y lle achos bod gyda hi deulu sy'n byw yno. Mae'r byd yn fach! Mae Ceri yn anfon neges arall at Marc.
8. Ar ôl mynd adref, mae Ceri'n meddwl am Marc. Mae hi'n trio dychmygu sut mae e'n edrych.
9. Yn y bore, mae Ceri yn darllen neges arall gan Marc. Mae hi'n dysgu ei fod e'n byw yn Awstralia! Mae Marc yn gweithio mewn sŵ. Mae e'n helpu anifeiliaid yn y sŵ. Mae Ceri yn dechrau breuddwydio am Awstralia ac am y tywydd braf!
10. Mewn un neges, mae Marc yn awgrymu y dylai Ceri fynd draw i Awstralia un diwrnod. Hefyd, mae e eisiau gwybod os yw hi'n sengl.
11. Mae Ceri yn teimlo'n hapus iawn. Fodd bynnag, mae hi'n meddwl am y broblem o gwrdd â rhywun ar y we. Beth os mae Marc yn hen ddyn tew? Beth os mae e'n edrych fel Voldernort? Beth os mae e eisiau twyllo Ceri? Roedd Ceri wedi gwastraffu amser gyda ei hen gariad, Gareth, a dydy hi ddim eisiau cael ei brifo eto. Ond ar y llaw arall, beth os mae hi wedi cwrdd â Marc achos ffawd?

12. Mae Ceri a Marc yn parhau i anfon negeseuon ebost am dair wythnos. Ydyn nhw'n dechrau syrthio mewn cariad?
13. Ar ôl tair wythnos, maen nhw'n siarad drwy Skype. Mae Ceri yn teimlo'n nerfus ond pan mae hi'n gweld Marc, mae hi'n hapus iawn! Mae e'n olygus!
14. Dau fis wedyn mae'r Nadolig yn dod ac mae Ceri yn teimlo fel Bridget Jones. Mae ei mam a'i thad yn mynd i Efrog Newydd a bydd hi ar ei phen ei hun. Hefyd, mae Maldwyn yn niwsans yn y swyddfa.
15. Ond rhai diwrnodau cyn y Nadolig, mae Ceri yn cael llythyr. Llythyr gan Marc! Mae e eisiau i Ceri fynd i Awstralia ac mae e wedi anfon tocyn. Mae'r awyren yn mynd HENO! Beth fydd Ceri yn wneud? Mae Maldwyn yn mynd ar ei nerfau ac mae'r gwaith yn ddiflas. Yn sydyn, mae hi'n penderfynu dweud wrth Maldwyn i stwffio ei job. Mae hi'n dal yr awyren ac yn hedfan i Awstralia.
16. Beth os bydd Marc yn wahanol i beth mae hi'n meddwl? Beth os yw hi'n gwneud y peth anghywir?
17. Ond dim ots am yr ansicrwydd. Mae Ceri yn teimlo'n fyw ac mae hi'n gyffrous!



Mae'r lluniau hyn yn cynrychioli gwahanol ddigwyddiadau yn y stori.
Rhifwch nhw er mwyn eu rhoi nhw yn y drefn gywir.

Ydych chi'n meddwl bod Ceri yn cymryd risg?

Pam dylai hi fynd i Awstralia 😊	Beth yw'r risgiau? ☹️

